**CYPE(5)-07-20 - Papur i'w nodi 5**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-6054-19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2020

Annwyl Lynne,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y gwaith o ddatblygu darpariaeth cleifion mewnol ar gyfer mamau a babanod yng Nghymru. Yn y llythyr hwnnw, cadarnheais fod swyddogion yn rhoi blaenoriaeth i ddod o hyd i ateb dros dro er mwyn sicrhau bod rhyw lefel o ddarpariaeth ar gael yng Nghymru cyn gynted â phosib.

Amlygodd y gwaith hwn y posibilrwydd o ailwampio seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn datblygu Uned Mamau a Babanod pwrpasol ar safle Ysbyty Tonna. Mae safle Ysbyty Tonna wedi cael ei asesu gan yr Uned Genedlaethol ar Gomisiynu Cydweithredol yn erbyn y safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol ar gyfer cleifion mewnol (Canolfan Gwella Ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Mawrth 2018). Barnwyd y byddai'r safle'n addas yn glinigol, naill ai dros dro neu yn barhaol.

Rwyf wedi gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fwrw ati i sefydlu Uned Mamau a Babanod chwe gwely ar safle Ysbyty Tonna. Mae disgwyl i'r uned fod yn weithredol erbyn tymor y gwanwyn 2021. Mae'r amserlen hon yn llawer cyflymach nag amserlenni'r opsiynau eraill. Rwyf wedi cymeradwyo'r cyllid cyfalaf ar gyfer y gwaith hwn ac wedi neilltuo cyllid ychwanegol i ddatblygu capasiti a gallu'r gweithlu cyn i'r uned ddod yn weithredol.

Yn ogystal â'r hyn a drafodwyd uchod, rwyf wedi gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gynnal gwerthusiad pellach o'r opsiynau er mwyn pennu model addas ar gyfer Uned Iechyd Meddwl Amenedigol parhaol ar gyfer mamau a babanod. Bydd y gwaith hwn yn pwyso a mesur ai defnyddio'r uned wedi'i ailwampio ar safle Ysbyty Tonna yn barhaol fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cleifion ynteu adeiladu Uned Mamau a Babanod newydd ar safle Castell-nedd Port Talbot.

Mae hwn yn gam pwysig yn y broses o sicrhau bod mamau yng Nghymru yn cael gofal o'r safon uchaf. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth gofal iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services